



DARLLENWCH  
Mathew 2: 1-8



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Mathew 2: 2

Gofynnwch am  
help i chwilio am yr  
adnod hon.

## Stori 2 Herod a'r Doethion

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn hapus iawn pan fydd babi'n cael ei eni. Ond doedd y newyddion am eni Iesu ddim yn plesio pawb! Dechreuodd y Brenin Herod boeni'n arw pan ddaeth Doethion (Seryddion) ato i ofyn iddo am enedigaeth Brenin arall.

Roedd seren newydd wedi ymddangos yn y ffurfafen. Gwyddai Doethion yn y dwyrain fod hyn yn arwydd y byddai Brenin newydd yn cael ei eni. Dyma nhw'n teithio i Jerwsalem i weld y Baban, er mwyn Ei addoli.



**C** O ble y daeth y Doethion? Y d \_\_\_\_\_ .

**C** I ble y teithion nhw? J \_\_\_\_\_ .

**C** Beth oedden nhw'n bwriadu ei wneud ar ôl dod o hyd i'r Plentyn?  
Ei ladd Ei addoli (rhowch linell drwy'r ateb anghywir)

6

Gan dybio fod Herod yn gwybod ble'r oedd y Plentyn, dyma'r Doethion yn mynd ato a gofyn:




Ble mae'r hwn a anwyd yn  
Frenin yr Iddewon?

Ond, doedd Herod ddim yn gwybod ble'r oedd y Plentyn ac roedd y ffaith fod y Plentyn yn cael ei alw'n 'Frenin yr Iddewon' yn ei boeni'n fawr. Herod oedd y brenin a doedd wiw i neb arall gymryd ei le!

Gofynnodd Herod i rai o'i gynghorwyr a wydden nhw ble'r oedd y Baban i gael ei eni.

Dyma nhw'n edrych yn ofalus drwy'r geiriau a ysgrifennwyd gan y proffwydi flynyddoedd lawer ynghynt, ac fe ddaethon nhw o hyd i'r ateb.

**C** Lliwch bob siâp sy'n cynnwys dot er mwyn darganfod enw'r dref



5

ble'r oedd y Plentyn i gael Ei eni.

Galwodd Herod y Doethion ato a dywedodd, "Ewch a chwiliwch yn fanwl am y Plentyn, a phan fyddwch wedi dod o hyd Iddo, rhowch wybod i mi er mwyn i minnau hefyd fynd i'w addoli."

Ond mewn gwirionedd doedd Herod ddim eisiau addoli Iesu. Roedd e am Ei ladd!

**C** Beth oedd Herod am ei wneud i Iesu?

Ei ladd      Ei addoli

(rhowch linell drwy'r ateb anghywir)

2

Felly, dyma'r Doethion yn dechrau ar eu taith i Fethlehem i chwilio am Iesu.

**C** Tynnwch linell o'r saeth i'r DDAU le yr aeth y Doethion i chwilio am Iesu. Yna, lliwiwch y geiriau.


4

“Daethom

i'w

addoli

Ef”



3